**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Ffederasiwn Cenedlaethol
Sefydliad y Merched
19 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9HA.

15 Hydref 2019

Annwyl Rhian,

Diolch am eich llythyr ynghylch ymgyrch Sefydliad y Merched am wasanaethau bysiau lleol. Byddaf yn cynnwys eich llythyr fel papur i'w nodi yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ddydd Iau 17 Hydref. Mae gennyf ddiddordeb mewn clywed am ffrwyth eich ymgyrch hyd yma, felly a fyddech cystal â sicrhau fy mod yn cael y diweddaraf am hyn.

Efallai y gwyddoch eisoes fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus yn y flwyddyn newydd. Bydd y Bil yn adeiladu ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, sef "Gwella trafnidiaeth gyhoeddus", a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd. Fe wnaeth y Pwyllgor graffu ar gynigion y Papur Gwyn hwnnw, ac mae'r adroddiad ar ein gwefan **yma**.

Rydym yn disgwyl i'r Bil ganolbwyntio ar fysiau cyhoeddus a'r gwaith o'u rheoleiddio. Fel rhan o daith y Bil drwy'r Cynulliad, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n swnio fel y byddai'ch gwaith ymchwil chi a'ch aelodau o gymorth mawr i'n gwaith craffu. Rwyf wedi gofyn i'r tîm clercio sicrhau y byddwch chi ar y rhestr o bobl y byddwn yn anfon y dogfennau ymgynghori atynt.

Yn gywir,

Russell George

Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau